

Cyngor Sir Ceredigion



Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg

Cymeradwywyd: 18 Mai 2021

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Adran 1: Cludo disgyblion oed Cynradd ac Uwchradd	3
1.1 Ysgolion Llawn	4
1.2 Cau Ysgolion	4
1.3 Diogelwch	4
1.4 Anghenion Addysg Arbennig/ Anghenion Dysgu Ychwanegol.....	5
1.5 Newid Cyfeiriad	8
1.6 Cludiant i Ysgolion Enwadol	9
1.7 Cludo ôl-16	9
Adran 2: Cyffredinol.....	10
2.1 Dewis sy'n ffafriaeth Rhieni	10
2.2 Gwregysau Arbed.....	10
2.3 Ymddygiad.....	10
2.4 Camerâu.....	10
2.5 Cwynion.....	10
2.6 Defnyddio Cludiant Cyhoeddus	11
2.7 Man Codi.....	11
2.8 Pa help sydd ar gael os yw'r llwybrau cerdded yn beryglus?	11
2.9 Apeliadau	12
Atodiad A - Cais am Gludiant Ysgol	13
Atodiad B - Ffurflen Apelio Cludiant Ysgol.....	15

Cyflwyniad

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Ceredigion (fel yr Awdurdod Lleol) i ddarparu cludiant am ddim i'r ysgol a gynhelir, mwyaf addas agosaf, i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol os ydynt yn byw ymhellach na'r pellter cerdded statudol.

Darparir cludiant am ddim yn unol â pholisi cludiant Cyngor Sir Ceredigion fel y nodir isod. Mae'r trefniadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr sydd yn byw yng Ngheredigion neu'r rhai yr ystyrir eu bod yn gyfrifoldeb Cyngor Sir Ceredigion.

Noder: Mae'r wybodaeth hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi ond gall newid o ganlyniad i newidiadau yn y gyfraith neu Bolisi'r Cyngor Sir.

Adran 1: Cludo disgyblion oed Cynradd ac Uwchradd

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu am ddim i ddisgyblion oed cynradd ac uwchradd sy'n teithio dros bellter mwy na'r pellter cerdded statudol o/i brif fynedfa'r ysgol addas agosaf atynt.

Diffiniad "ysgol addas" agosaf yw lle "darparir addysg neu hyfforddiant addas o ran oedran, gallu a dawn y dysgwyr ac unrhyw anawsterau dysgu y gall fod ganddynt".

Rhaid i ddisgybl sy'n gwneud cais am gymorth fod yn breswlydd Ceredigion. Os yw ef/hi yn mynychu'r ysgol addas agosaf, a bod y ffordd fyrraf i'w cherdded rhwng cartref ac ysgol gymaint â, neu'n fwy na'r pellteroedd a nodwyd isod, yna bydd cludiant am ddim yn cael eu ddarparu ar eu cyfer fel rheol.

- **Disgyblion Oed Cynradd (o 5 mlwydd oed)** - 2 filltir neu fwy o'r ysgol
- **Disgyblion Oed Uwchradd** - 3 milltir neu fwy o'r ysgol

Caiff pellter ei fesur yn ôl y ffordd fyrraf i'w cherdded rhwng cartref ac ysgol. (O ffordd fawr a gynhelir gan y cyngor sydd agosaf at yr eiddo, i'r fynedfa ysgol agosaf sy'n arwain at safle'r ysgol).

Mae pŵer gan yr Awdurdod Lleol i wneud trefniadau yn ôl disgrisiwn ar gyfer disgyblion na fyddai fel arall yn gymwys i dderbyn cludiant o'r cartref i'r ysgol am ddim mewn amgylchiadau eithriadol.

Gall cymorth gael ei ddarparu hefyd ar gyfer disgyblion o dan amgylchiadau arbennig ar sail: -

- ✓ ysgol yn llawn
- ✓ cau'r ysgol
- ✓ ail drefnu ysgol(ion)
- ✓ diogelwch

- ✓ meddygol
- ✓ datganiad o anghenion addysgol arbennig
- ✓ newid man preswyllo yn ystod blwyddyn olaf arholiadau
- ✓ parhau gyda chwrs astudio safon uwch nad yw ar gael yn yr ysgol a ddynodwyd
- ✓ credo grefyddol (o fewn radiws o 8 milltir i'r ysgol)
- ✓ myfyrwyr ôl-16

Atodiad A – Cais am Gludiant Ysgol

1.1 Ysgolion Llawn

Darparir cludiant am ddim i'r ysgol pan nad yw'r Awdurdod Lleol yn medru gwneud trefniadau ar gyfer disgybl i gyrraedd yr ysgol addas agosaf am ei bod yn llawn neu yn orlawn.

1.2 Cau Ysgolion

Yn ystod ymgynghoriad ar gau ysgol yn barhaol, bydd yr Awdurdod yn ymgynghori ar yr ysgol amgen addas a enwyd yn ystod y broses ymgynghori. Bydd cludiant am ddim am gyfnod penodol yn cael ei ystyried yn dilyn cau ysgol neu newid yn statws ysgol.

1.3 Diogelwch

Mae'r pellter y mae gan ddysgwyr hawl i gludiant am ddim yn ôl ac ymlaen o'r ysgol agosaf mwyaf addas yn cael ei nodi yn Adran 1. Cyfeirir at bellter sydd yn llai na hyn at bwrpas y ddogfen hon fel 'pellter cerdded'.

Dylai'r pellter cerdded gael ei fesur yn ôl y 'llwybr byrraf sydd ar gael'. Ystyrir bod llwybr ar gael os ydyw yn ddiogel (cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ymarferol) ar gyfer dysgwr heb anabledd neu gydag anawsterau dysgu i gerdded ar hyd y llwybr ar ben ei hun neu gydag oedolyn os yw oedran a lefelau deall y dysgwr yn gofyn am hyn.

Os nad yw llwybr 'ar gael' ac nad oes llwybr cerdded arall 'ar gael' i'w ddefnyddio, o fewn y pellter a nodwyd ar gyfer oedran y dysgwr, ni ellir digswyl i'r dysgwr gerdded i'r ysgol addas agosaf.

Mae gan Awdurdodau Lleol ddyletswydd cyfreithiol i asesu anghenion teithio'r dysgwyr sydd yn cerdded i'r ysgol.

Gall cludiant ysgol gael ei ddarparu am ddim ar sail diogelwch. Rhaid i'r rhieni wneud cais ysgrifenedig i'r Prif Swyddog Addysg yn nodi eu rhesymau. Wrth ystyried y cais, bydd yr Awdurdod yn cymryd y canlynol i ystyriaeth: -

- oed y disgybl;
- natur y ffordd: a yw'n beryglus ac a ddylid hebrwng y plentyn. Rhaid bod y ffordd

yn un y gall plentyn ei cherdded i'r ysgol, wedi'i hebrwng yn ôl y gofyn, a'i cherdded mewn diogelwch rhesymol. (Nid yw'n peidio â bod yn gymwys oherwydd peryglon a allai godi pe na bai'r plentyn yn cael ei hebrwng);

- a yw'r disgybl ar gofrestr yr ysgol agosaf ai peidio;
- argaeledd gwasanaeth cludiant cyhoeddus i deithwyr.

1.4 Anghenion Addysg Arbennig/ Anghenion Dysgu Ychwanegol

Nid oes angen cymorth cludiant o'r cartref i'r ysgol ar fwyaf y disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig, a dylent fod yn teithio lle bo hynny'n bosibl, gyda'u cyfoedion. Dylai cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer disgyblion ag AAA fod yn:

- **Gysylltiedig â beth allant ei wneud yn hytrach nag anabledd** – dylai'r cludiant o'r cartref i'r ysgol gefnogi eu hannibyniaeth a'u galluogi yn hytrach na'u hanalluogi. Mae'n ymwneud â darparu cludiant mewn modd sydd yn eu cyfyngu cyn lleied â phosibl.
- **Gynhwysol gan annog disgyblion** i ddatblygu yn addysgol ac yn gymdeithasol – mae hyn yn cynnwys gweithio tuag at deithio'n annibynnol.
- **Yn ddiogel ac yn weddol gyfforddus ac mewn modd sydd yn ffafriol i'w hastudio** – sydd yn golygu darparu'r offer cywir, y cerbyd cywir, ar yr adeg iawn, gyda staff sydd wedi eu hyfforddi'n briodol.
- **Mor gost effeithiol â phosibl** – mae hyn yn golygu nid yn unig sicrhau bod y ddarpariaeth cludiant i'r ysgol yn canolbwyntio ar y rhai sydd ei angen fwyaf, ond fod yn cael ei ddarparu yn y ffordd fwyaf cost-effeithiol.

I. Gwybodaeth Gyffredinol am Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol:

Pan fo hawl i gael cludiant am ddim oherwydd anghenion yn bodoli ac nid oes cludiant i'r ysgol ar gael, gall yr Awdurdod Lleol gynnig lwfans petrol ar gyfradd sefydlog i rieni sy'n fodlon gyrru eu plant i'r ysgol.

Mae'r ddyletswydd yn berthnasol i drefniadau teithio o'r cartref i'r ysgol ar ddechrau ac/neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol, yn ôl yr angen. Nid yw'n berthnasol i deithio rhwng sefydliadau addysgol yn ystod y diwrnod ysgol neu ar gyfer darpariaeth cyn neu ôl ysgol. Caiff pellter ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf rhwng y cartref a'r ysgol. (O'r ffordd agosaf a gynhelir gan y cyngor i safle'r ysgol).

Nid yw'n bosibl bob tro i drefnu bod y cerbydau yn pasio cartrefi pob disgybl. Efallai y bydd yn rhaid gofyn i rieni felly i wneud trefniadau i'w plant fynd i'r fan lle bydd y cerbyd yn eu codi. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter hwn mor isel â phosibl ac ni ddylai fod yn fwy na 1.5 milltir. Yn yr achosion hyn gofynnir am gymorth rhieni i gludo disgyblion yn ddiogel i'r cerbydau ac oddi wrthynt.

Gellir darparu hebryngwyr ar rai cerbydau. Bydd hyn yn cael ei benderfynu yn dilyn cais/asesiad anghenion teithio cychwynnol ac asesiad risg lle bo angen.

Os byddwch yn symud tŷ, bydd angen i chi wneud cais eto am gludiant am ddim i'r ysgol. Mae hyn oherwydd bod eich cymhwyster yn dibynnu ar y pellter rhwng eich cartref a'ch ysgol a dylid gwneud cais cyn gynted ag y gallwch ar ôl i'ch cyfeiriad newydd gael ei gadarnhau. Os nad yw eich cyfeiriad cartref a'r ysgol a fynychir yn newid, nid oes angen gwneud cais arall am drafnidiaeth ysgol bob blwyddyn. Bydd angen i Rieni/Gwarcheidwaid i wneud cais arall am gludiant ar gyfer eu plant sy'n dychwelyd i addysg ôl-16, a bydd pob cais yn cael ei asesu gan yr Awdurdod Lleol.

II. Meini Prawf Cymhwyster:

Bydd cymorth yn cael ei ddarparu o ran cludiant i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a/neu anabledau, fel y nodir yn y polisi hwn.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi cymorth i fyfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu a/neu anabledau sydd yn mynychu'r ysgol addas agosaf neu'r ysgol a aseswyd gan yr Awdurdod Lleol i ateb eu anghenion addysgol unigol. Wrth bennu a yw plentyn yn mynychu eu hysgol briodol agosaf rhaid i'r Awdurdod Lleol ystyried eu hysgol agosaf mwyaf addas, rhaid ystyried addasrwydd yr ysgol o ran unrhyw anawsterau corfforol, meddygol a dysgu sydd gan y plentyn.

Gall y rhan fwyaf o anghenion dysgu ychwanegol gael eu diwallu yn yr ysgol agosaf a bydd rhieni/gofalwyr yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynd a dod o'r Ysgol.

Os yw plentyn yn mynychu ysgol brif ffrwd arall a ffafir, h.y. nid yr ysgol addas agosaf, ond ysgol arall sydd wedi ei dewis gan y rhiant/gwarcheidwad, yna byddant yn gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn mynd a dod o'r ysgol.

Bydd rhieni disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, y mae'r Awdurdod Lleol wedi eu derbyn i ysgolion gydag adnoddau arbenigol o fewn y brif ffrwd, yn medru gwneud cais am gludiant o'r cartref i'r ysgol. Caiff pob cais ei asesu yn unigol.

III. Cais/Asesiad:

Bydd pob achos yn cael ei asesu'n unigol yng nghyswllt ysgol i'r disgybl ac **yn unig** o gyfeiriad cartref y disgybl. Bydd anghenion cludiant yn cael eu hasesu gan yr Awdurdod Lleol gyda chynghor, lle bo angen, gan weithwyr proffesiynol priodol eraill. Bydd angen i rieni/gwarchodwyr i gwblhau ffurflen gais/asesu cludiant a darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r cais. Os cytunir â'r cais, gall gymryd hyd at 10 diwrnod gwaith i'r trefniadau i ddod i rym.

Bydd y canlynol yn cael eu hystyried wrth benderfynu a yw disgybl yn cael cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol a'r math o gludiant a ddarperir: -

- anghenion unigol y disgybl, cymdeithasol, emosiynol, addysgol neu feddygol;
- difrifoldeb anghenion dysgu ychwanegol y disgybl/myfyriwr;
- a oes gan y disgybl/myfyriwr broblemau meddygol difrifol, yn y tymor byr neu dymor hir;
- a yw'r disgybl/myfyriwr yn cael anhawster difrifol i gerdded neu anawsterau symudedd cyffredinol
- Y pellter i'r ysgol/ coleg/lleoliad mewn perthynas â'r meini prawf a nodir uchod;
- p'un a yw'r daith ar brif lwybr bws, sy'n hygyrch i'r disgybl/myfyriwr;
- a oes unrhyw amgylchiadau teuluol difrifol / personol sy'n effeithio ar allu'r myfyriwr/disgybl i fynychu ysgol/ coleg y dylid eu cymryd i ystyriaeth.

IV. Cyflwr meddygol:

Gall trefniadau cludiant unigol gael eu gwneud lle mae cyflwr meddygol y dysgwyr naill ai yn eu rhwystro rhag gwneud defnydd o'r cludiant presennol neu'r cyflwr yn eu rhwystro rhag cerdded y pellter cerdded a ddiffiniwyd yn statudol. Mae'n rhaid i'r holl geisiadau am gymorth ar sail feddygol gael eu cefnogi gan dystysgrif feddygol neu ddatganiad wedi'i lofnodi gan ymarferydd meddygol sy'n rhaid datgan yn glir nad yw'r dysgwr yn gallu cerdded y pellter a bennwyd i'r ysgol.

V. Mae Rhieni / Gwarcheidwaid yn gyfrifol am:

- sicrhau bod eu plentyn yn cael ei gludo i'r ysgol ac oddi yno os nad ydyw yn gymwys i gael cludiant ysgol am ddim;
- gwneud cais am gludiant am ddim os yw eu plentyn yn gymwys;
- hysbysu'r Awdurdod Lleol a'r ysgol o newid amgylchiadau a allai effeithio ar gludiant;
- hysbysu'r Awdurdod Lleol cyn newid cyfeiriad;
- sicrhau bod eu plentyn yn barod ac yn aros am gludiant ar yr adeg briodol ac yn y lleoliad y cytunwyd arno;
- mynd â'r plentyn i gwrdd â'u cerbyd, os oes angen ei hebrwng;
- sicrhau bod ymddygiad eu plentyn wrth ddefnyddio cludiant ysgol yn dderbyniol

VI. Plant sy'n Derbyn Gofal:

Bydd cludiant o'r cartref i'r ysgol ar gyfer Plant Sy'n Derbyn Gofal yn cael ei ddarparu yn unol â "Phrotocol Ceredigion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal". Bydd cludiant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn gyfrifoldeb ar y cyd rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Ysgolion.

Bydd cludiant ar gyfer disgyblion Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei adolygu bob tymor, neu yn dilyn

newid yn lleoliad y cartref neu'r ysgol.

VII. Darpariaeth Breswyl/Allan o'r Sir:

Os cytunir y dylai plentyn fynd i ysgol breswyl/ysgol breswyl arbennig tu allan i'r sir bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod trefniadau teithio addas yn cael eu gwneud i hwyluso presenoldeb y plentyn yn yr ysgol, ar yr amod nad oes ysgol agosach sy'n addas i ddiwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn boed hynny yn y sir neu du allan i'r sir, ond yn nes na'r dewis y rhieni.

Bydd y trefniadau teithio addas yn cael eu penderfynu gan asesiad o anghenion teithio'r plentyn unigol yn unol ag unrhyw asesiad risg angenrheidiol.

Ar gyfer pob plentyn, bydd dull cyfannol yn cael ei ddefnyddio a fydd yn cynnwys cysylltu â iechyd ac asiantaethau eraill perthnasol er mwyn sicrhau bod unrhyw anghenion iechyd, cymdeithasol, lles ychwanegol, neu hanghenion eraill fel cyswllt â'r cartref a'r teulu yn cael eu hystyried.

VIII. Adolygiad o Anghenion Cludiant:

Bydd trefniadau teithio pob plentyn yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gan yr Awdurdod Lleol yn ôl ei ddisgresiwn a beth bynnag yn flynyddol i gyd-fynd ag adolygiad blynyddol. Gall adolygiad achlysurol a'r angen i gydymffurfio â gofynion tendro arwain at newid yn y math o gerbyd, y daith neu'r cwmni cludiant. Bydd swyddogion bob amser yn rhoi gwybod i rieni/gofalwyr am unrhyw newidiadau o flaen llaw. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynnal gwiriadau ar yr holl gwmnïau cludiant sydd yn cael eu defnyddio i sicrhau eu bod yn cyrraedd ein safonau a disgwylir iddynt gynnal yr un lefel o wasanaeth.

Dylid cyflwyno unrhyw, bryderon, sylwadau neu ymholiadau o ran cymhwysedd ac asesiad ynglŷn â darpariaeth cludiant Anghenion Dysgu Ychwanegol at: -

Ebost: sen@ceredigion.gov.uk
Ffôn: 01970 633693
Post: **Adran Anghenion Addysg Arbennig**
Gwasanaeth Ysgolion
Canolfan Rheidol
Rhodfa Padarn
Llanbadarn Fawr
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3UE

1.5 Newid Cyfeiriad

Gall yr Awdurdod ddarparu cludiant i ddisgyblion, yn dilyn newid cyfeiriad yn ystod blwyddyn olaf arholiadau T.G.A.U neu lefel A, er mwyn sicrhau parhâd o ran addysg. Dylid gwneud cais i'r Prif Swyddog Addysg. Ni fydd darpariaeth o'r fath yn parhau ym Mlynnyddoedd 12 a 13 pan fydd disgyblion yn symud yn blwyddyn 11.

1.6 Cludiant i Ysgolion Enwadol

O dan ddeddfwriaeth cludiant ysgol presennol, mae gan ddysgwyr hawl i gludiant yn rhad ac am ddim i ysgol enwadol os ystyrir yr ysgol honno gan yr awdurdod lleol i fod yr ysgol addas agosaf ac mae pwêr gan awdurdodau lleol i wneud trefniadau cludiant dewisol i ddysgwyr nad ydynt yn mynychu ysgol addas oherwydd dewis enwadol.

Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion o oedran ysgol gorfodol (h.y.5) os ydynt yn byw y tu allan i'r pellter cerdded statudol ac nid mwy nag wyth milltir o'r ysgol.

1.7 Cludo ôl-16

Gall cludiant gael ei ddarparu am ddim i fyfyrwyr sy'n mynychu coleg addysg bellach ar yr un sail â myfyrwyr 16-19 oed sy'n mynychu'r chweched dosbarth mewn ysgolion cyhyd â bod: -

- I. myfyrwyr rhwng 16-19 oed yn mynychu cwrs amser llawn;
- II. y cwrs heb fod ar gael mewn ysgol neu goleg agosach i adref;
- III. y myfyrwyr yn gymwys i dderbyn cymorth teithio yn unol â meini prawf cludiant am ddim (pellter).

Gall darpariaeth o'r fath gael ei gwneud cyhyd â-bod myfyrwyr ôl-16:-

- ✓ yn preswyllo fel rheol yn yr ardal
- ✓ yn mynychu'r ysgol/coleg agosaf (hyd yn oed os yw'r ysgol/coleg oddi allan i ardal yr Awdurdod Lleol)
- ✓ ag anghenion addysgol arbennig, neu o dan amgylchiadau unigol neilltuol, sy'n gwneud darparu cludiant am ddim yn hanfodol

Gall cymorth ar gyfer myfyrwyr ysgolion uwchradd a cholegau sydd yn y grŵp oedran 16-19 gael ei ddarparu "drwy'r dull mwyaf effeithlon" h.y. yn cynnwys:-

- ✓ cludiant cerbydau contract;
- ✓ cludiant cyhoeddus;
- ✓ talu costau teithio ar gyfer cludiant car rhieni/car y myfyrwyr eu hunain.

Adran 2: Cyffredinol

2.1 Dewis sy'n ffafriaeth Rhieni

Mae'r Cyngor yn cydnabod ei rwymedigaeth i gydymffurfio â'r dewis sy'n ffafriaeth rhieni o safbwynt dewis ysgol.

Serch hynny, wrth ddewis ysgol ymhellach o'u cartref na'r ysgol addas agosaf sydd ar gael, bydd rhieni/gwarchodwyr yn mynd yn gyfrifol am gostau'r cludiant ac am y trefniadau i ac o'r ysgol honno.

2.2 Gwregysau Arbed

Mae gwregysau arbed wedi'u darparu yn yr holl gerbydau a dynodwyd yn gerbydau cludiant ysgol. Dylid nodi:-

- I. bod yn rhaid gwisgo gwregysau arbed;
- II. mai cyfrifoldeb pob disgybl yn unigol yw sicrhau bod ef/hi yn gwisgo gwregys arbed.

2.3 Ymddygiad

Wrth ddarparu gwasanaeth cludo, gall aelodau o'r staff a defnyddwyr y gwasanaeth ddisgwyl cael eu trin yn deg ac yn gyfiawn. Ni fydd goddefiad i aflonyddu o unrhyw fath. Ni fydd cam-drin, ysgogi trais na chreu twrf yn erbyn aelodau o'r staff na defnyddwyr y gwasanaeth yn dderbyniol, nac ychwaith ddifrodi cerbydau. Pe bai ymddygiad disgyblion wrth eu cludo yn arwain at unrhyw un o'r pethau a nodir uchod, gallai hynny arwain at dynnu cludiant y disgybl hwnnw yn ôl (gweler y ddogfen "Cludiant Ysgol - Canllaw i Rieni/Gwarchodwyr a Disgyblion") a/neu drosglwyddo'r taliadau am y difrod i rieni/gwarchodwyr y sawl a oedd yn gyfrifol. Gall yr Awdurdod wrthod cludo disgyblion sy'n arddangos ymddygiad bygythiol neu beryglus, ac eithrio pan fydd hyn yn nodweddiadol o anghenion arbennig canfyddadwy'r disgyblion.

2.4 Camerâu

Mewn rhai cerbydau contract neilltuol, gosodwyd Camerâu Cylch Cyfyng (CCTV). Diben y fenter hon yw:

- sicrhau diogelwch teithwyr a gyrrwyr;
- adnabod unigolion sydd o ganlyniad i'w hymddygiad annerbyniol yn mynd yn groes i gôd ymddygiad yr Awdurdod Lleol ac, o bosib, yn yr achosion gwaethaf yn peryglu bywydau teithwyr eraill. Wedi i unigolion o'r fath gael eu hadnabod bydd y camau y gellid eu gweithredu gan yr Awdurdod Lleol yn dilyn y drefn a osodwyd allan yn y ddogfen "Cludiant Ysgol – Canllaw i Rieni/Gwarchodwyr a Disgyblion".

2.5 Cwynion

Bydd pob cwyn gan ddisgyblion, rhieni, aelodau o'r cyhoedd, gyrrwyr, ac ati, ynghylch cludiant o'r cartref i'r ysgol yn destun ymchwiliad. Mae modd mynegi pryderon drwy gysylltu â'r canlynol neu drwy'r ysgol. (Mae'r wybodaeth hon ar gael yn y llawlyfr "Cludiant Ysgol - Canllaw i Rieni/Gwarchodwyr a Disgyblion")

<p>Cwynion ynghylch ymddygiad disgyblion</p> <p>Cwynion ynghylch gyrrwyr</p> <p>Cwynion ynghylch cerbydau sy'n cael eu defnyddio ar gyfer cludiant ysgol</p> <p>Cwynion/ymholiadau ynghylch Hebryngwyr Ceir</p>	<p>CLIC</p> <p>Cyngor Sir Ceredigion</p> <p>Canolfan Rheidol</p> <p>Llanbadarn Fawr</p> <p>Aberystwyth</p> <p>Ceredigion</p> <p>SY23 3UE</p> <p>☎01545 570881</p> <p>✉clic@ceredigion.gov.uk</p>
---	--

2.6 Defnyddio Cludiant Cyhoeddus

Bydd y mwyafrif o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn cymorth yn cael eu cludo mewn cerbydau o dan contract penodol i'r Awdurdod Lleol; fodd bynnag, weithiau bydd cerbydau teithwyr cludiant cyhoeddus yn cael eu defnyddio.

2.7 Man Codi

Pan fydd cerbydau contract neu gerbydau teithwyr cludiant cyhoeddus yn cael eu defnyddio, nid yw bob amser yn bosibl trefnu bod llwybrau teithio cerbydau yn pasio heibio'n agos at gartrefi'r holl ddisgyblion. Felly, bydd yn ofynnol efallai i rieni wneud eu trefniadau eu hunain i'w plant gyrraedd a gadael 'man codi' agosaf y cerbyd. Gwneir pob ymdrech i gadw'r pellter mor fyr ag y bydd modd, ac ni ddylai fod yn hwy na 1.5 milltir.

Mewn achosion o'r fath bydd galw am gymorth rhieni i hebrwng disgyblion yn ddiogel at y cerbydau ac oddi wrthynt.

Mae'r llawlyfr "Cludiant Ysgol - Canllaw i Rieni/Gwarchodwyr a Disgyblion" ar gael oddi wrth yr Awdurdod Lleol, yn cynnig cyngor ac arweiniad i ddisgyblion/myfyrwyr a rhieni ynghylch yr hyn y gallant ei wneud i sicrhau bod y daith o ac i'r ysgol/coleg yn ddiogel.

2.8 Pa help sydd ar gael os yw'r llwybrau cerdded yn beryglus?

Pan fo dysgwyr yn byw llai na 2 filltir (ysgol gynradd) neu 3 milltir (ysgol uwchradd) o'r ysgol agosaf ac, felly heb fod â hawl i gludiant am ddim, ond yn teithio ar hyd ffordd a ystyrir gan y Cyngor i fod yn hynod beryglus, cynigir cludiant rhad ac am ddim.

Diffinnir ffordd beryglus pan fo natur y ffordd (sydd yn cynnwys llwybrau cerdded cyhoeddus) yn golygu nad yw'n rhesymol i ddisgwyl i ddysgwyr (gan ystyried eu hoedran a gyda hebryngwr fel bo angen) fedru cerdded mewn modd gymharol ddiogel. Wrth asesu diogelwch cymharol ffordd, bydd y Cyngor yn cynnal asesiad o'r risgiau a all dysgwyr eu hwynebu ar hyd y ffordd dan sylw (gan gynnwys er enghraifft afonydd, ffosydd, cyflymder traffig ar hyd y ffordd ger llaw, hanes damweiniau, coed yn gorhongian neu ganghennau a allai amharu ar allu cerddwyr neu yrwyr i weld, ac ati). Cynhelid yr asesiad ar adeg o'r dydd a dyddiau'r wythnos y disgwyliad i ddysgwyr ddefnyddio'r ffordd.

2.9 Apeliadau

Y Broses Apelio

Gall rhieni apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod lleol ynghylch cymhwysedd eu plentyn i gael ei gludo/ei chludo i ysgol benodol. Mae'r Uned Cludiant Teithwyr Corfforaethol yn ystyried ceisiadau ac yn cyhoeddi penderfyniadau yn unol â pholisi'r Cyngor, ar ran y Prif Swyddog Addysg.

Mae'r broses apelio ar gyfer rhieni nad ydynt yn fodlon â phenderfyniad o ran cludiant i'r ysgol.

Sut i Apelio

Mae gan rieni 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn penderfyniad yr awdurdod lleol i wrthod cymorth cludiant i wneud cais ysgrifenedig yn gofyn am adolygiad o'r penderfyniad. Mae ffurflen benodol ar gael at y diben hwn y gellir ei dychwelyd trwy'r post neu e-bost. Dylai'r cais nodi'r holl resymau dros yr her i'r penderfyniad i wrthod cymorth; rhaid i hyn gynnwys yr amgylchiadau eithriadol sy'n ddigon cryf i wneud penderfyniad y tu allan i'r polisi cludiant o'r cartref i'r ysgol. Rhaid cynnwys tystiolaeth benodol gyda'r ffurflen i brofi'r amgylchiadau eithriadol.

O fewn 20 diwrnod gwaith o dderbyn cais ysgrifenedig y rhieni, mae panel adolygu uwch swyddogion gyda chynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Ysgolion a'r Uned Cludiant Teithwyr Corfforaethol yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynir. Yna bydd y rhieni'n derbyn ymateb ysgrifenedig yn nodi'r penderfyniad y daethpwyd iddo gyda'r rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw.

Atodiad B – Ffurflen Apelio Cludiant i'r Ysgol

Apêl Aelod

Ar ôl derbyn penderfyniad adolygu uwch swyddog yr awdurdod lleol, gall rhieni ofyn bod eu hachos yn cael ei ystyried gan banel apêl sy'n cynnwys pedwar Cynghorydd. Rhaid gwneud y cais hwn cyn pen 20 diwrnod gwaith o ddyddiad yr ymateb ysgrifenedig gan swyddogion a dim ond os gellir cyflwyno tystiolaeth newydd.

Bydd rhieni a swyddogion yn cael cyfle i fynyachu'r gwrandawriad. Bydd y rhieni a'r swyddog cynrychioli yn cael gwybod yn ysgrifenedig am y penderfyniad y daethpwyd iddo a'r rhesymeg dros y penderfyniad hwnnw cyn pen 5 diwrnod gwaith.



Cais am Gludiant Ysgol

ATODIAD A



I'w ddychwelyd at:	CLIC, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE Ffôn: 01545 570881 ebost: cllic@ceredigion.gov.uk
---------------------------	--

Enw'r Ysgol y mae angen cludiant iddi:	
---	--



Mae angen llun ar bob cais newydd ar gyfer plant o oedran Ysgol Uwchradd, ysgrifennwch enw'r disgybl ar gefn y llun os gwelwch yn dda.

Cyfenw			
Enw(au) Cyntaf			
Cyfeiriad			
Côd Post		Dyddiad Geni	
Rhif ffôn		Rhif ffôn symudol	
Cyfeiriad ebost rhiant			

O un cyfeiriad yn unig y caiff cludiant ei ddarparu fel rheol, sef yr un a gofrestrwyd gyda'r Ysgol a'r Uned Derbyniadau yn y Gwasanaeth Ysgolion. RHAID i'r cyfeiriad fod yng Ngheredigion (h.y. fod Treth y Cyngor yn cael ei thalu i Gyngor Sir Ceredigion) - rhaid cyflwyno ceisiadau am gludiant o gyfeiriadau mewn siroedd eraill i'r Cyngor Sir berthnasol.

Weithiau gellir darparu cludiant o fwy nag un cyfeiriad lle mae trefniadau rhannu cystodaeth rheolaidd a pharhaol ar waith rhwng rhieni. Cysylltwch ar Uned Cludiant Teithwyr Corfforaethol am gais "Preswyllo mewn Dau Gyfeiriad".

Dyddiad dechrau'r trafndiaeth:	
Os ydych yn gwybod, Rhif taith y bws ysgol a'r contractwr:	
Man Codi:	
Enw brawd neu chwaer sydd yn teithio ar y bws/tacsi yn barod:	

Rheswm dros gwneud cais: (Ticiwch y blychau priodol)

<input type="checkbox"/>	Disgyblion sydd yn derbyn addysg gynradd (o 5 oed) sydd yn byw 2 filltir neu fwy o'r Ysgol fwyaf addas agosaf
<input type="checkbox"/>	Disgyblion sydd yn derbyn addysg uwchradd sydd yn byw 3 milltir neu fwy o'r Ysgol fwyaf addas agosaf

<input type="checkbox"/>	Dechreuwr newydd nad yw'n mynd i'r ysgol eto neu yn symud ysgol
<input type="checkbox"/>	Newid cyfeiriad (nodwch yr hen manylion)
<input type="checkbox"/>	Tocyn Teithio wedi mynd ar goll neu difrodi (codir tâl o £2 yn daladwy i Gyngor Sir Ceredigion)

Gwybodaeth Ychwanegol

Cytundeb

Rwyf wedi darllen y Côt Ymddygiad wrth Deithio, Llywodraeth Cymru (ar gael ar www.ceredigion.gov.uk) a deallaf y gallai ymddygiad annerbyniol arwain at ddiddymu fy hawl i gael cludiant. DS – dim ond dysgyblion Blynnyddoedd 6-13 sydd angen llofnodi hwn.

Llofnod Disgybl		Dyddiad	
------------------------	--	----------------	--

Cadarnhaf fy mod wedi darllen y Côt Ymddygiad wrth Deithio, Llywodraeth Cymru (ar gael ar www.ceredigion.gov.uk) ac rwy'n deall y gallai ymddygiad annerbyniol gan fy mhlentyn arwain at dynnu yn ôl ei hawl i gludiant. Rwy'n cytuno y gallai'r wybodaeth ar y ffurflen hon gael eu trosglwyddo i'r gweithredwr cludiant. Derbyniaf y gallai'r cerbyd y bydd fy mhlentyn yn teithio arno weithredu system teledu cylch cyfrwng (CCTV) ac y gallai unrhyw ddarn o ffilm a gofnodwyd cael ei archwilio a'i ddefnyddio fel tystiolaeth o ymddygiad annerbyniol. Mae'r recordiad CCTV yn gyfrinachol ac ni chaiff ei weld ond gan bobl benodedig sydd wedi'u cymeradwyo drwy broses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Cadarnhaf hefyd bod y manylion uchod yn gywir, hyd y gwn i.

Llofnod Rhiant/ Warcheidwad		Dyddiad	
--	--	----------------	--

DEFNYDD SWYDDFA:

Dyddiad derbyniwyd		Cymwys:	Ddim yn gymwys:
Dyddiad dechrau daparu cludiant		Cadarnhad anfon i'r ysgol/adref	



Ffurflen Apelio Cludiant i'r Ysgol

I'w ddychwelyd at:	CLIC, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UE Ffôn: 01545 570881 ebost: cllic@ceredigion.gov.uk
--------------------	--

Enw'r Ysgol y mae angen cludiant iddi:

Cyfenw			
Enw (au) Cyntaf:			
Cyfeiriad			
Cod Post		Dyddiad Geni	
Enw'r Rhiant/Gwarcheidwad		Perthynas â'r Disgybl	
Cyfeiriad		Côd Post	
Rhif Ffôn		Rhif ffôn Symudol	
Cyfeiriad e-bost			

Seiliau/rhesymau dros gyflwyno'r apêl

Rheswm	Ticiwch
Mae'r llwybr cerdded priodol i'r ysgol yn fwy na'r pellter statudol dwy neu dair milltir. <i>Os ydych yn dymuno apelio yn erbyn y pellter, caiff ei fesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf rhwng y cartref a'r ysgol o'r ffordd agosaf a gynhelir gan y cyngor i'r eiddo, i fynedfa agosaf yr ysgol i safle'r ysgol.</i>	
Mae'r llwybr cerdded priodol yn anniogel i blentyn yng nghwmni oedolyn. <i>Os ydych am apelio yn erbyn diogelwch y llwybr cerdded i'r ysgol, bydd swyddogion, lle bernir bod angen hynny, yn gofyn am asesiad proffesiynol a/neu annibynnol o'r llwybr.</i>	
Mae gan fy mhlentyn anghenion meddygol sy'n golygu bod angen cymorth o ran teithio. <i>Os mai cyflwr meddygol a chyflwr iechyd eich plentyn yw eich rheswm dros yr apêl, mae angen tystiolaeth ysgrifenedig gan ysbyty neu feddyg.</i>	
Mae gan fy mhlentyn anghenion meddygol sy'n golygu bod angen cymorth teithio. <i>Esboniwch a oes gan eich plentyn anghenion arbennig a fydd yn effeithio ar allu eich plentyn i deithio i'r ysgol</i>	
Arall	

Manylion yr apêl:

Gwybodaeth ychwanegol/tystiolaeth ategol:

Rwy'n cadarnhau bod y wybodaeth uchod, hyd eithaf fy ngwybodaeth, yn gywir.

Llofnod y Rhiant/Gwarcheidwad		Dyddiad	
--------------------------------------	--	----------------	--